# <u>Hei ho!</u>

Hwylio moroedd mawr y byd,
Gwisgo dillad crand o hyd,
Cipio'r trysor mwyaf drud
A byw pob dydd fel brenin.

Hei ho! Môr-ladron cry'.
Hwyl a sbri ar donnau'r lli.
Hei ho! A bant â ni!
Â wnewch chi ddod yn gwmni?

Yfed rym a chanu cân,
Sgrwbio'r dec i'w gadw'n lân.
Mae ein boliau yn llawn tân
I gipio llongau'r Saeson.

Dringo'r rigin, fyny fry.
Beth yn union welwch chi?
"Gwelwn ynys!" Gwaeddwn ni,
"Ahoi!" ar dop ein lleisiau.

Cysgu'r nos dan sêr di-ri,
Digon hapus, wir i chi,
Er mai byrgŵ ych a fi
Sy'n frecwast cas bob bore.

# **Darllen a Deall – Hei ho!**

Nod: Darllen darn o farddoniaeth ac ateb cwestiynau yn seiliedig ar y testun i brofi dealltwriaeth.

1.) Yn ôl y gerdd, beth sydd angen cadw'n lân? ________________

2.) Llongau'n berchen i bwy mae'r môr-ladron eisiau eu cipio?

______________________________________________________

3.) Beth mae'r môr-ladron yn bwyta i frecwast bob bore?

______________________________________________________

4.) Pa ddiod mae'r môr-ladron yn yfed? ______________________

5.) Beth mae'r môr-ladron yn gweld cyn gweiddi 'Ahoi!'?

______________________________________________________

6.) Pa ansoddair gaiff ei ddefnyddio i ddisgrifio'r dillad?

______________________________________________________

7.) Sut ydych chi'n gwybod fod y môr-ladron yma'n cysgu'r nos ar ddec y llong?

______________________________________________________

8.) Beth sydd angen i'r môr-ladron ddringo? __________________

9.) Gorffennwch y frawddeg:

Mae'r môr-ladron yn byw pob dydd fel _________________.

10.) Beth yw ystyr 'lli'? ___________________________________